



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arfer gorau

Atodiad 1

Drafft

Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

Diben Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhan ganolog o becyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisïau a dogfennau cyngor cynllunio newydd a diwygedig, a chanllawiau arferion da ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddant, gyda'i gilydd, yn helpu i sicrhau bod newidiadau i'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu rheoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.

Mae'r ddogfen ddrafft hon yn rhan o'r ymgynghoriad deuddeg wythnos ar gynigion i gyflwyno is-ddeddfwriaeth a dogfennau canllaw drafft sy'n ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd yn dod i ben ar 3 Hydref 2016. Mae'r ddogfen ymgynghori, y ffurflen ymateb a'r holl ganllawiau drafft cysylltiedig ar gael ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we (<http://llyw.cymru/consultations/cultureandsport/?lang=cy>).

Wrth baratoi'r ddogfen hon, aed ati ar yr un pryd i ddiwygio pennod 6, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn *Polisi Cynllunio Cymru* ac i lunio *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*. Byddai'n fuddiol darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau hynny.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar bennod 6 o *Polisi Cynllunio Cymru* i ben ar 13 Mehefin 2016 ac rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion ar hyn o bryd. Mae'r bennod ar gael o hyd ar y dudalen ymgynghori ar y we (<http://llyw.cymru/consultations/planning/proposed-changes-to-planning-policy-wales-chapter-6-the-historic-environment/?lang=cy>) ond mae'n bosibl y bydd yn cael ei newid ar ôl i ganlyniadau'r

ymgyngoriad gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at *Polisi Cynllunio Cymru* yn cyfeirio at y fersiwn honno.

Ar yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn, mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn mynd ati hefyd i geisio barn am *Nodyn Cyngor Technegol 24*. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw, a fydd yn para deuddeg wythnos, hefyd yn dod i ben ar 3 Hydref 2016, a byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn mynegi barn. Ewch i dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we (<http://llyw.cymru/consultations/planning/?lang=cy>) i lawrlwytho *Nodyn Cyngor Technegol 24*, y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb. Mae unrhyw gyfeiriadau at *Nodyn Cyngor Technegol 24* yn cyfeirio at y fersiwn honno.

11 Gorffennaf 2016

11 Gorffennaf 2016

DRAFFT

Aseuadau o'r Effaith ar
Dreftadaeth yng Nghymru

Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

Datganiad o Ddiben

Mae *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* yn nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i asedau hanesyddol a gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad ardal gadwraeth.

Mae'r ddogfen ganllaw arfer gorau hon wedi'i hanelu'n bennaf at berchenogion, deiliaid ac asiantau asedau hanesyddol er mwyn eu helpu i ddeall pam, pryd a sut i ddefnyddio proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ac ysgrifennu datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth. Dylai hefyd eu helpu i ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) Cadw*¹ er mwyn cyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.

Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol*,² *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*³ a'r *Egwyddorion Cadwraeth* i lywio eu polisiau eu hunain ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

¹ Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru; [Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy](#), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

² *Polisi Cynllunio Cymru — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

³ *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym	1
Cyflwyniad	1
1. Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?	2
2. Pryd mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?	2
2.1 Paratoi Cynigion	2
2.2 Ceisiadau am Gydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth	3
2.3 Caniatâd Cynllunio	3
3. Yr Hyn y Dylech ei Gynnwys yn eich Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth	4
3.1 Datganiad sy'n Esbonio'ch Amcan	5
3.2 Datganiad o Arwyddocâd	6
3.3 Eich Cyfiawnhad dros y Gwaith	7
3.4 Crynodeb o'ch Gwaith Arfaethedig	7
3.5 Asesiad o Effaith eich Cynigion	8
4. Lliniaru	9
5. Gwrthbwyso	10
6. Datganiad Mynediad	10
7. Sut y Dylech Gyflwyno eich Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?	11
Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth Cryno Enghreifftiol	12
Rhagor o Wybodaeth	14
Cysylltiadau	15

Ffeithiau Cyflym

- Gall asesu'r effaith ar dreftadaeth eich helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i'ch ased hanesyddol.
- Mae deall arwyddocâd eich ased hanesyddol yn allweddol er mwyn cynnal asesiad effeithiol o'r effaith ar dreftadaeth.
- Mae asesu'r effaith ar dreftadaeth yn eich helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith dylunio arloesol.
- Gall asesu'r effaith ar dreftadaeth eich helpu i ysgrifennu datganiadau effeithiol o'r effaith ar dreftadaeth, sy'n arbed amser ac arian i chi drwy osgoi gwaith diwygio costus.
- Mae datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau cadarn ac amserol.
- Os bydd eich gwaith arfaethedig yn effeithio ar drefniadau mynediad neu os bydd o fewn ased hanesyddol, bydd angen i chi gynnwys datganiad mynediad yn eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.
- Mae'n rhaid cyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth gyda cheisiadau am gydsyniad asedau hanesyddol dynodedig; fel arall, maent yn arfer da pan fyddwch yn cynllunio newid i unrhyw ased hanesyddol.

Cyflwyniad

Mae a wnelo cadwraeth â rheoli newid yn ofalus. Golyga hyn ei bod yn hanfodol deall goblygiadau unrhyw newid arfaethedig — o benderfynu beth i'w wneud a sut i'w wneud i benderfynu p'un a ddylid rhoi caniatâd ai peidio.

Mae deall eich ased hanesyddol a'i arwyddocâd wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau cadarn. Unwaith y byddwch yn deall ei arwyddocâd, gallwch asesu effaith bosibl unrhyw newidiadau a gynigir gennych ac addasu eich cynigion er mwyn dod o hyd i'r ateb gorau. Mae asesu'r effaith ar dreftadaeth yn broses a gynlluniwyd i'ch helpu i wneud hyn. Ar ddiwedd y broses, byddwch yn gallu ysgrifennu datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Mae angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd allu deall ac asesu effaith unrhyw gynigion pan fyddant yn ystyried cais am gydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydsyniad ardal gadwraeth: bydd eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg.

Gall eich ased hanesyddol fod yn adeilad rhestredig, yn heneb gofrestredig neu'n adeilad mewn ardal gadwraeth. Gall fod yn barc neu'n ardd hanesyddol gofrestredig, yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd neu yn ei glustogfa neu'n ased

hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.⁴ Mae proses ar wahân ar gyfer ystyried effaith gwaith datblygu mewn tirweddau hanesyddol cofrestredig.⁵

Mae pob un o'r asedau hanesyddol hyn yn ffurfio'r amgylchedd hanesyddol sy'n ganolog i dreftadaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad o hunaniaeth Cymru. Mae'n adnodd y mae angen i ni ei drysori a'i warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, nid oes angen i waith gwarchod atal newid a all gynyddu cynaliadwyedd hirdymor a hyfywedd economaidd asedau hanesyddol. Gall newid cadarnhaol wella ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd drwy gynyddu gweithgarwch adfywio a thwristiaeth. Gyda'i gilydd, bydd y manteision hyn yn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol drwy gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).⁶ Ond mae angen rheoli newid i'r amgylchedd hanesyddol a dyna pam mae'n bwysig ystyried yr effaith y gallai ei chael ar arwyddocâd asedau hanesyddol.

1. Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?

Mae asesiad o'r effaith ar dreftadaeth yn broses strwythuredig i sicrhau y byddwch yn ystyried arwyddocâd eich ased hanesyddol pan fyddwch yn datblygu a llunio cynigion ar gyfer newid. Mae'n rhan graidd o'r broses ddylunio, sy'n profi a yw eich cynigion ar gyfer newid ased hanesyddol yn briodol drwy asesu eu heffaith ar ei arwyddocâd. Mae'n helpu i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn lleihau niwed cymaint â phosibl ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

Dylai canlyniadau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gael eu crynhoi mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall y rhesymau dros eich cynnig a phwyso a mesur y risgiau a'r manteision. Gall gwbyodaeth dda, sydd ar gael o'r dechrau, gyflymu penderfyniadau, lleihau costau a sicrhau gwaith dylunio gwell yn gyffredinol.

2. Pryd mae angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?

2.1 Paratoi Cynigion

Mae'n syniad da dechrau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth cyn i chi ddechrau llunio cynigion ar gyfer newid eich ased hanesyddol. Gall newid gynnwys gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu, gwaith adfer a gwaith ailadeiladu, gwaith newydd neu waith addasu, a gwaith dymchwel.

⁴ Esbonnir asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ym *Mholisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.8

⁵ [Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu, \(2^{ll}\)](#) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

⁶ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Gall y broses asesu eich helpu i ddatblygu eich cynigion, nodi dulliau gweithredu amgen a gwella prosesau cynllunio a dylunio. Mae hyn yn golygu bod yn glir o'r dechrau ynglŷn â'r hyn rydych am i'r newid arfaethedig ei gyflawni. Unwaith y bydd eich nod yn glir, gallwch ddefnyddio'r broses asesu i'ch helpu i ddeall arwyddocâd eich ased hanesyddol a nodi'r ffordd fwyaf priodol o roi eich cynnig ar waith fel y byddwch yn lleihau newid cymaint â phosibl ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

Peidiwch â gwneud eich cynlluniau cyn cynnal eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth — defnyddiwch y broses i'ch helpu i nodi'r ateb gorau ac arbed amser ac arian.

2.2 Ceisiadau am Gydsyniad Adeilad Rhestredig, Cydsyniad Heneb Gofrestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth

Mae'n rhaid i chi gyflwyno canlyniadau eich asesiad fel datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda cheisiadau am y canlynol:

- cydsyniad heneb gofrestredig (oni chytunir fel arall â Llywodraeth Cymru — Cadw)
- cydsyniad adeilad rhestredig (awdurdod cynllunio lleol)
- cydsyniad ardal gadwraeth (awdurdod cynllunio lleol).⁷

2.3 Caniatâd Cynllunio

Nid oes angen cyflwyno datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu:

- o fewn lleoliad adeilad rhestredig
- o fewn lleoliad heneb gofrestredig
- mewn parc a gardd gofrestredig neu ei leoliad/leoliad
- mewn ardal gadwraeth
- ar Safle Treftadaeth y Byd.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu yn gofyn am ddatganiad dylunio a mynediad.⁸ Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn ar gael yn [Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio](#).⁹

Serch hynny, mae'n arfer da mabwysiadu egwyddorion proses asesu'r effaith ar dreftadaeth er mwyn eich helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu ar gyfer newid.

Weithiau, fodd bynnag, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth i'w alluogi i benderfynu ar gais cynllunio.¹⁰ Gall hyn

⁷ Rheoliadau newydd i'w cyhoeddi

⁸ [Erthygl 7 o Orchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2012/801](#) fel y'i diwygiwyd gan [erthygl 9 o Orchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2016](#).

⁹ [Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio](#), Llywodraeth Cymru, 2016

¹⁰ [Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 62\(3\)](#)

gynnwys datganiad o'r effaith ar dreftadaeth os yw'r datganiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar ased hanesyddol dynodedig. Mae'n syniad da cael trafodaeth gynnar â'ch awdurdod cynllunio lleol er mwyn gweld a fydd angen i chi gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth i gefnogi eich cais am ganiatâd cynllunio.¹¹

Disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol ystyried pa mor ddymunol yw diogelu lleoliad asedau hanesyddol dynodedig wrth asesu effaith bosibl cynnig ar gyfer datblygu.¹² Gall egwyddorion asesu'r effaith ar dreftadaeth fod yn ddefnyddiol wrth lunio ac ystyried cynigion ar gyfer datblygu a allai effeithio ar leoliad asedau dynodedig ac asedau heb eu dynodi. Mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio sut i asesu lleoliad.¹³

3. Yr Hyn y Dylech ei Gynnwys yn eich Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?

Dylai eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ystyried digon o wybodaeth fel y gellir deall arwyddocâd yr ased ac effaith newid. Dylai fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol a graddau'r newid a gynigir.

Os ydych am wneud newid bach sydd ond yn debygol o gael effaith fach iawn, yna bydd asesiad byr sy'n canolbwyntio ar y rhan o'r ased hanesyddol yr effeithir arni, gydag esboniad byr o'r ffordd y mae'n ymwneud â'r ased cyfan, yn ddigon. Mewn achos o'r fath, nid yw'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir yn debygol o gynnwys mwy na dau baragraff neu dudalen neu ddwy.

Os ydych yn cynnig newid mwy sylweddol, neu os yw eich ased hanesyddol yn arbennig o bwysig, bydd angen i chi wneud asesiad manylach. Bydd angen iddo gynnwys gwybodaeth fanwl am arwyddocâd yr ased cyfan ac esboniad trylwyr o effaith y newidiadau arfaethedig. Mewn achosion sy'n cynnig newidiadau a allai ddifrodi asedau hanesyddol cymhleth o arwyddocâd mawr, bydd angen i'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda'r cais fod yn fwy cynhwysfawr ac efallai y bydd angen adroddiadau ychwanegol arno.

Mewn achos o'r fath, dylech gyflogi arbenigwr cymwysedig a chymwys i gynnal yr asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ac ysgrifennu'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

¹¹ Mae'n rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â Cadw cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio penodol am waith datblygu mawr: gweler [erthygl 2D o Orchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2012](#) fel y'i diwygiwyd gan [erthygl 4 o Orchymyn Diwygio Cynllunio Gwlad a Thref \(Gweithdrefn Rheoli Datblygu\) \(Cymru\) 2016](#); [Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Ymgeisio](#), Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

¹² *Polisi Cynllunio Cymru* — Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol; *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, paragraffau 1.20-1.27

¹³ *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Dylai eich awdurdod cynllunio lleol (neu Cadw yn achos heneb gofrestredig) allu rhoi cyngor i chi ar gwmpas eich asesiad a'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

Bydd trafodaethau cynnar hefyd yn helpu i nodi a oes angen i chi ymchwilio ymhellach er mwyn nodi arwyddocâd yr asedau hanesyddol a deall effaith newid, er enghraifft, drwy:

- ymchwil hanesyddol fanwl, gwaith cofnodi neu ymchwiliad archeolegol
- arolygon o gyflwr, perfformiad ac ecoleg, er enghraifft
- datganiad dull ar gyfer gwaith atgyweirio neu waith dymchwel
- manylion y warchodaeth a roddir i nodweddion arbennig yn ystod y gwaith.

Mae hefyd yn bwysig cofio, wrth ystyried unrhyw newidiadau i ased hanesyddol, y dylai eich cynigion annog diwylliant o gynhwysiant a darparu mynediad i'r amrywiaeth ehangaf posibl o bobl. Golyga hyn ei bod yn arfer da ystyried materion mynediad yn gynnar yn eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a'r hyn fydd ei angen, o bosibl, er mwyn sicrhau lefel dderbyniol o fynediad — yn enwedig lle mae'r cyhoedd yn ymweld â'r ased hanesyddol ac y darperir gwasanaethau.¹⁴

Mae camau sylfaenol proses asesu'r effaith ar dreftadaeth, waeth beth fo maint a chwmpas y prosiect, fel a ganlyn:

- datganiad sy'n esbonio eich amcan
- datganiad o arwyddocâd
- eich cyfiawnhad dros y gwaith
- crynodeb o'r gwaith arfaethedig
- asesiad o effaith eich cynigion
- eich strategaethau lliniaru.

Dyma hefyd brif elfennau'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth y dylech ei gyflwyno gyda'ch cais.

3.1 Datganiad sy'n Esbonio eich Amcanion

Mae'n syniad da sicrhau eich bod yn glir ynglŷn â'r hyn rydych yn ceisio ei gyflawni cyn ystyried sut i wneud hynny. Bydd hyn yn eich helpu i ystyried ffyrdd gwahanol o gyflawni eich amcan yn hytrach na chanolbwyntio ar un ateb o'r dechrau, gan ei bod yn bosibl nad dyma'r un mwyaf priodol. Er enghraifft, pe baech yn ystyried gwneud eich adeilad rhestredig yn fwy ynni-effeithlon. Yn lle penderfynu bod angen deunydd inswleiddio waliau mewnlol neu allanol arnoch, byddech yn ystyried opsiynau amgen megis gwaith i sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da, gosod haen arall o wydr neu newid y boeler, y gallai pob un ohonynt gael llai o effaith ar yr adeiladwaith a'r cymeriad hanesyddol.

¹⁴ Gweler y nodweddion gwarchoddedig ac ymddygiad gwahareddedig a nodir yn [Neddf Cydraddoldeb 2010](#)

3.2 Datganiad o Arwyddocâd

Bydd deall arwyddocâd eich ased hanesyddol yn eich helpu i lunio eich cynigion o'r dechrau. Bydd hefyd angen i chi ddangos eich bod wedi ystyried arwyddocâd eich ased pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am gydsyniad.

Dylai eich datganiad o arwyddocâd gynnwys disgrifiad byr o'ch ased hanesyddol a nodi dealltwriaeth o'i werthoedd treftadaeth. Dylai gyfeirio'n benodol at yr agweddau hynny ar ei werthoedd y bydd eich cynigion yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt a'u cyfraniad at yr ased cyfan. Felly, mae'n werth canolbwyntio ar werthoedd treftadaeth eich ased hanesyddol:

- gwerth tystiolaethol: y graddau y mae'r adeiladwaith yn dweud wrthym sut a phryd y gwnaed eich ased hanesyddol, sut y'u defnyddiwyd a sut mae wedi newid dros amser.
- gwerth hanesyddol: efallai fod eich ased hanesyddol yn dangos ffordd benodol o fyw yn y gorffennol neu efallai ei fod yn gysylltiedig ag unigolyn neu ddigwyddiad penodol; gall fod tystiolaeth ffisegol am y cysylltiadau hyn y gallai fod yn bwysig ei chadw
- gwerth esthetig: cynllun, adeiladwaith a chreffftwaith eich ased hanesyddol. Gall hyn hefyd gynnwys lleoliad a golygfeydd i'r ased hanesyddol ac oddi yno, a all fod wedi newid dros amser
- gwerth cymunedol: efallai fod eich ased hanesyddol yn arbennig o bwysig i bobl oherwydd ei werth coffaol, symbolaidd neu ysbrydol neu oherwydd y rhan y mae wedi'i chwarae ym mywyd diwylliannol neu gyhoeddus yr ardal leol. Bydd hyn yn bwysig yn achos adeiladau sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd neu safleoedd lle y mae'n rhaid cynnal neu wella mynediad cyhoeddus.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am werthoedd treftadaeth yn *Egwyddorion Cadwraeth*.¹⁵

Os yw eich ased hanesyddol yn Safle Treftadaeth y Byd bydd angen i chi ddeall ei Werth Cyffredinol Eithriadol, sef y rheswm pam mae wedi'i gofnodi ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae *Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* yn darparu rhagor o wybodaeth.¹⁶

Yn ogystal â'ch gwybodaeth a'ch arbenigedd eich hun, mae llawer o ffynonellau o wybodaeth i'ch helpu i ddeall eich ased hanesyddol a llunio eich datganiad o arwyddocâd:

- [Cof Cymru](#) — mae cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru yn fan cychwyn da ar gyfer cofnodion o adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru¹⁷

¹⁵ [Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy](#), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

¹⁶ *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

¹⁷ Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at [Cof Cymru](#) yn ystod 2017

DRAFFT Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

- mae arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, a gynhelir gan eich awdurdod cynllunio lleol, yn esbonio pam mae ardal wedi'i dynodi a'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig
- gall fod gan eich cofnod amgylchedd hanesyddol lleol, eich swyddfa archifau leol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru dystiolaeth ddogfennol ddefnyddiol am eich ased hanesyddol
- efallai y bydd hen ffotograffau a mapiau hanesyddol yn darparu tystiolaeth am y ffordd mae eich ased hanesyddol wedi newid dros amser
- efallai y bydd swyddog cadwraeth eich awdurdod lleol, swyddog y cofnod amgylchedd hanesyddol a gwasanaethau curadurol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru yn gallu rhoi cyngor i chi hefyd.

Am ragor o wybodaeth am ddeall arwyddocâd gweler *Egwyddorion Cadwraeth, Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Rheoli Newid i Henebion Cofrestredig yng Nghymru a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*.¹⁸

3.3 Eich Cyfiawnhad dros y Gwaith

Bydd angen i chi fod yn glir ynglŷn â diben unrhyw newid arfaethedig o'r dechrau fel y gallwch nodi'r ffyrdd gwahanol y gellid cyflawni'r canlyniad a dod o hyd i'r opsiwn a ffefir gennych.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais, bydd angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth esbonio'r hyn y bwriedir i'r gwaith arfaethedig ei gyflawni, pam mae angen ei wneud a'r rheswm dros ddewis yr opsiwn a ffefir gennych.

3.4 Crynodeb o'ch Gwaith Arfaethedig

Dylai'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth rydych yn ei gyflwyno gyda'ch cais esbonio eich cynigion dylunio a chynnwys rhestr waith fer, sy'n rhoi digon o wybodaeth am y gwaith arfaethedig fel y gellir gwneud penderfyniad hyddysg.

Bydd y cynlluniau, y drychiadau a lluniadau eraill a gyflwynir fel rhan o'r cais am gydsyniad yn darparu gwybodaeth ategol ddefnyddiol, sy'n dangos y sefyllfa bresennol a sut y bydd y cynigion yn ei newid. Ceir rhagor o wybodaeth am gyflwyno cais am gydsyniad yn *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Rheoli Newidiadau i Henebion Cofrestredig yng Nghymru a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*.¹⁹ Mae Nodyn Cyngor

¹⁸ [Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy](#), Llywodraeth Cymru, Cadw, 2011; *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi; *Rheoli Newidiadau i Henebion Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi a *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

¹⁹ *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi; *Rheoli Newidiadau i Henebion Cofrestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi a *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

*Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn cynnwys gwybodaeth os ydych yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol fel rhan o gais cynllunio.*²⁰

3.5 Aseiad o Effaith eich Cynigion

Pan fyddwch yn ystyried eich cynigion, gall ystyried yr effaith y gallai eich newidiadau arfaethedig ei chael ar eich ased hanesyddol eich helpu i nodi'r ffordd fwyaf priodol o wneud y newidiadau hynny.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi ystyried effaith bosibl y dull gweithredu a ffefrir gennych. Bydd hyn yn helpu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad i lunio barn gytbwys.

Wrth ystyried effaith eich cynigion, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi lunio'r aseiad drwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- sut y byddai eich cynigion yn effeithio ar werth tystiolaethol yr ased hanesyddol? A fyddant yn arwain at golli adeiladwaith hanesyddol, gan gynnwys dyddodion archaeolegol neu a fyddant yn ei gwneud hi'n anos gwerthfawrogi'r ffordd y defnyddiwyd yr adeilad neu'r safle yn y gorffennol a sut mae wedi newid dros amser?
- sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar nodweddion esthetig neu nodweddion dylunio'r ased hanesyddol? A fyddant yn peryglu ei egwyddorion dylunio hanesyddol — megis ei gynllun, ei raddfa a'i faint neu a fyddant yn arwain at golli manylion neu grefftwaith hanesyddol?
- sut mae'r cynigion yn effeithio ar werth cymunedol? A ydynt yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad i'r adeilad a'r safle a'i werthfawrogi?
- a oes unrhyw risgiau neu fanteision eraill? Er enghraifft, gallai risgiau gynnwys mwy o rwymedigaethau o ran gwaith cynnal a chadw a rheoli, neu'r posibilrwydd y caiff perfformiad ei danseilio drwy ddefnyddio deunyddiau anghydnaws; gallai manteision gynnwys cyflwyno defnydd newydd cynaliadwy.
- os yw eich ased hanesyddol o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu os yw'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd, beth fyddai effaith eich cynigion ar ei Werth Cyffredinol Eithriadol?

Efallai na fydd gennych ddigon o wybodaeth i asesu'r effaith. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith ymchwil neu waith ymchwilio. Dylai hyn fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased o ran treftadaeth a maint yr effaith.

Bydd y rhan fwyaf o gynigion yn cael amrywiaeth o effeithiau a all fod yn:

- gadarnhaol — megis atgyweirio difrod, cael gwared ar elfennau ymwithiol neu adfer adeilad at ddefnydd buddiol fel na fydd mewn perygl mwyach

²⁰ *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*

DRAFFT Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

- niwtral — megis pan gaiff cynigion eu llunio'n sympathetig, neu pan ddarperir ar gyfer newid mewn rhan o'r adeilad neu'r safle sy'n llai sensitif
- negyddol — megis pan gaiff adeiladwaith pwysig neu agweddau pwysig ar y cynllun gwreiddiol eu dileu neu eu newid. Os bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad o'r farn bod maint y difrod yn annerbyniol ac nad oes fawr ddim manteision i gydbwysu'r difrod hwnnw, efallai y gwrthodir y cais.

Er enghraifft, bydd addasu hen gapel i'w ddefnyddio fel llyfrgell yn golygu colli rhywfaint o'r adeiladwaith mewnol sy'n adlewyrchu ei ddiben hanesyddol ac sy'n rhan o'i gynllun. Er y bydd hyn yn tanseilio ei werth tystiolaethol ac esthetig, mae'r newidiadau hyn yn debygol o wella ei werth cymunedol drwy sicrhau mynediad parhaus i'r cyhoedd. Mae'n debyg y byddai addasu'r capel i'w ddefnyddio fel cartref yn golygu colli hyd yn oed mwy o'r adeiladwaith a gallai hefyd leihau ei werth cymunedol drwy gyfyngu ar fynediad iddo. Fodd bynnag, os nad oes unrhyw ddewisiadau amgen realistig, gall manteision sicrhau bod yr adeilad yn parhau i gael ei ddefnyddio fod yn drech na'r anfanteision.

4. Lliniaru

Lliniaru yw'r camau rydych yn eu cymryd i osgoi neu leihau unrhyw niwed i arwyddocâd yr ased.

Un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwch wneud hyn yw drwy ystyried dewisiadau amgen yn gynnar pan fyddwch yn datblygu eich cynigion a nodi dull gweithredu sy'n achosi'r niwed lleiaf. Er enghraifft, a ellid adleoli estyniad fel y byddai'n amharu llai ar gynllun gwreiddiol adeilad hanesyddol neu unrhyw olion archaeolegol claddedig, neu a ellid atgyweirio nodwedd yn hytrach na gosod un newydd yn ei lle.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi ystyried nifer o opsiynau i fodloni eich gofynion. Bydd angen i chi nodi'r dewisiadau amgen a ystyriwyd gennych ac esbonio pam rydych wedi dewis y dull gweithredu a ffefrir gennych.

Gallwch liniaru niwed posibl drwy'r ffordd y caiff eich cynnig ei lunio a'i reoli. Er enghraifft, gallwch sicrhau:

- mai eich ymyriad yw'r isafswm sydd ei angen a bod gwaith newydd wedi'i gynllunio fel y gellir ei osod, neu hyd yn oed ei symud, heb ddifrodi adeiladwaith arwyddocaol na dyddodion archaeolegol
- bod eich dyluniad yn un sensitif, o ran graddfa, deunyddiau, lleoliad a ffurf. Dylai cynllun eich cynigion ystyried pob agwedd ar y safle a'i gydestun yn ogystal ag arwyddocâd yr ased hanesyddol. Gall gwaith dylunio o safon uchel wneud cyfraniad cadarnhaol at werthoedd treftadaeth eich ased hanesyddol a'i lleoliad.²¹ Gall Comisiwn Dylunio

²¹ [Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio](#)

Cymru ddarparu rhagor o ganllawiau ar waith dylunio da ac mae'n cynnig gwasanaethau adolygu gwaith dylunio am ddim er mwyn asesu cynigion²²

- bod eich amseru yn sensitif, er enghraifft, drwy amseru gwaith atgyweirio ar y to er mwyn osgoi effeithiau ar nythfeydd ystlumod neu osgoi cyfnodau prysur pan fydd yr ased hanesyddol yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned.
- eich dulliau o wneud y gwaith arfaethedig, gan gynnwys er enghraifft, gwarchod nodweddion arwyddocaol, osgoi offer mecanyddol a gwaith poeth.

5. Gwrthbwysu

O dan rai amgylchiadau, lle na ellir osgoi difrod, gall fod cyfleoedd i gyflwyno mesurau gwrthbwysu. Er na fydd y rhain yn lleihau effaith uniongyrchol newid ar arwyddocâd yr ased hanesyddol, gallant wrthbwysu'r niwed.

Gallai mesurau gwrthbwysu, er enghraifft, gynnwys creu mynediad cyhoeddus, gwella dealltwriaeth drwy waith ymchwilio manwl, darparu deunydd dehongli, neu (fel dewis olaf) gofnodi unrhyw nodweddion a gaent eu difrodi, eu cuddio neu hyd yn oed eu dinistrio gan y gwaith arfaethedig.

Dylai eich cynigion ar gyfer gwrthbwysu difrod gael eu cyflwyno i'ch awdurdod cynllunio lleol neu Cadw fel y gellir pwysu a mesur manteision y cynllun, gan gynnwys y mesurau gwrthbwysu, yn erbyn effaith y datblygiad ar arwyddocâd yr ased hanesyddol.

6. Datganiad Mynediad

O dan amgylchiadau penodol, bydd angen i chi gynnwys datganiad ffurfiol ar fynediad yn eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Dim ond pan fydd y gwaith rydych yn ceisio cydsyniad ar ei gyfer yn effeithio ar y trefniadau mynediad i'ch ased hanesyddol a'r tu mewn iddo y bydd angen i chi gyflwyno datganiad mynediad. Os bydd hyn yn wir am eich ased hanesyddol (adeilad fel arfer), bydd angen i chi ddangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddarparu mynediad llawn, tra'n cydnabod y gall arwyddocâd eich ased gyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer gwneud hynny weithiau.

Mae Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol yn ffynhonnell dda o gyngor defnyddiol ar waith dylunio cynhwysol.²³ Gellir dod o hyd i ateb boddhaol bron bob amser ar yr amod y caiff dulliau gweithredu llawn dychymyg ac arloesol eu hystyried yn llawn. Bydd angen i chi ystyried pob opsiwn amgen ymarferol fel rhan o'ch aseiad o'r effaith ar dreftadaeth fel y gallwch nodi'r opsiwn sy'n darparu mynediad rhesymol orau ac sy'n cael yr effaith andwyol leiaf ar arwyddocâd eich ased hanesyddol.

²² Comisiwn Dylunio Cymru <http://dcfw.org/>

²³ *Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol*, Cadw, Welsh Historic Monuments, 2002

Dylai eich datganiad mynediad nodi'n glir sut mae eich dull dylunio cynhwysol wedi cydbwysu unrhyw ddyletswyddau a osodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ag arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad.²⁴ Dylai eich datganiad gofnodi unrhyw faterion penodol sy'n deillio o'r ffaith bod yr adeilad yn rhestredig a'r opsiynau a ystyriwyd gennych. Dylid hefyd esbonio lle nad yw gwaith dylunio cynhwysol wedi'i ddarparu'n llawn a pham nad oedd hyn yn bosibl. Pan gynigir addasu asedau hanesyddol sy'n bodoli eisoes, ond mae adeiladwaith y strwythur yn golygu na allwch sicrhau lefelau gofynnol o hygyrchedd, gallech nodi addasiadau neu weithdrefnau eraill a fydd yn eich galluogi i gyflawni dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio cyfarpar cludadwy neu newidiadau i arferion rheoli.²⁵

7. Sut y Dylech Gyflwyno eich Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth?

Dylai canlyniadau eich asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gael eu nodi mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gyflwynir gyda'ch cais am gydsyniad. Dylai esbonio'r canlynol:

- eich gwaith arfaethedig, gan gynnwys cyfeirio at unrhyw ffotograffau, cynlluniau a lluniadau sy'n cefnogi eich cais am gydsyniad.
- eich cyfiawnhad dros y gwaith arfaethedig, sy'n esbonio'r hyn rydych yn bwriadu ei gyflawni fel y'i nodir yn eich datganiad o amcanion
- arwyddocâd y rhan o'r ased hanesyddol y bydd eich cynigion yn effeithio arni fel y'i nodir yn eich datganiad o arwyddocâd
- asesiad o effaith y gwaith arfaethedig, gan gynnwys unrhyw fanteision a niwed posibl
- crynodeb o unrhyw fesurau lliniaru, gan gynnwys eich dewis o ddull gweithredu, agweddau perthnasol ar ei gynllun a'r broses o'i roi ar waith, ac unrhyw gynigion ar gyfer gwrthbwysu difrod.
- datganiad mynediad, os oes angen un.

Yn ogystal â datganiad ysgrifenedig, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi grynhoi eich datganiad o'r effaith ar dreftadaeth mewn tabl. Dangosir rhai enghreifftiau yn y tabl cysylltiedig.

Cofiwch fod angen i'ch datganiad o'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd eich ased hanesyddol a graddau'r newid a gynigir gennych.

Fel arfer mae achosion syml yn gofyn am ddatganiadau byr. Ar gyfer sefyllfaoedd mwy cymhleth bydd angen cyflwyno adroddiadau hirach ac mae'n ddefnyddiol darparu datganiad cryno o arwyddocâd ac effaith eich cynigion fel rhagarweiniad iddynt.

²⁴ [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)

²⁵ [Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio](#)

DRAFFT Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth Cryno Enghreifftiol

Gwaith Arfaethedig	Cyfiawnhad	Arwyddocâd yr adeiladwaith yr effeithir arno	Manteision posibl y gwaith o ran treftadaeth	Effaith niweidiol bosibl y gwaith	Strategaeth liniaru
Gosod to newydd ar annedd frodorol sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ddefnyddio llechi tebyg ond gan gyflwyno deunydd inswleiddio.	Er mwyn atgyweirio to diffygiol iawn a gwella effeithlonrwydd ynni'r tŷ.	Mae'r to yn rhan o'r adeilad gwreiddiol.	Mae'n sicrhau y parheir i ddefnyddio'r adeilad.	Colli rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol; newid bach i olwg allanol yr adeilad sy'n gysylltiedig â chyflwyno llechi newydd.	Gwaith dylunio i leihau'r effaith, aildefnyddio llechi presennol lle y bo'n bosibl a sicrhau bod y llechi newydd mor debyg â phosibl i'r rhai gwreiddiol. Cynnwys deunydd inswleiddio o fewn proffil y bondo presennol.
Adeiladu estyniad i fwthyn brodorol bach.	Er mwyn gwneud yr adeilad yn fwy addas i ffordd o fyw'r unfed ganrif ar hugain drwy greu lle ychwanegol i fyw ac ystafell amlbwrpas.	Mae cynllun gwreiddiol a manylion yr adeilad gan gynnwys to llechi wedi'u gosod nodedig i'w gweld o hyd.	Bydd yn bosibl gwneud defnydd ymarferol o'r adeilad.	Mae cynllun yr estyniad sy'n dilyn llinell y to presennol yn weledol ymwithiol ac yn amharu ar gynllun yr adeilad.	Codi estyniad i gefn yr adeilad gydag un draws yn eu cysylltu fel nad effeithir ar y cynllun gwreiddiol. Sicrhau bod llinell y to newydd yn is fel na fydd modd gweld yr estyniad o du blaen yr adeilad.
Gosod paneli solar ar oleddf to blaen tŷ pentref sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.	Er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni.	Mae'r adeilad wedi goroesi'n gyflawn i raddau helaeth am ei fod wedi'i adeiladu tua 1850.	Mae'n gwella cynaliadwyedd yr eiddo.	Bydd paneli solar yn elfen ymwithiol yn y cynllun cyffredinol.	Gosod y paneli solar ar adeilad allan neu osod arâe o baneli solar ar dir yr eiddo.
Rhoi ffenestri replica UPVC yn lle ffenestri codi pren sydd wedi'u difrodi'n wael mewn tŷ teras sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.	Er mwyn lleihau drafftiau, gwella effeithlonrwydd ynni ac adfer golwg wreiddiol y tŷ.	Mae'r ffenestri yn rhan o gynllun ac adeiladwaith gwreiddiol y tŷ.	Dim	Colli manylion ac adeiladwaith gwreiddiol. Ni all UPVC atgynhyrchu manylion pren cain. Newid cymeriad a golwg yr adeilad.	Atgyweirio fframiau ffenestri pren gwreiddiol os yw'n bosibl neu gyflwyno fframiau ffenestri pren tebyg am debyg di-ddrafft yn lle'r rhai gwreiddiol. Ystyried gosod ail haen o wydr mewn ffenestri os oes angen.

DRAFFT Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

Dymchwel sinema nas defnyddir mewn ardal gadwraeth.	Er mwyn galluogi ei ailddatblygu ar gyfer tai.	Nid yw'r adeilad yn rhestredig ac nid yw'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr ardal gadwraeth.	Mae'n dileu dolur llygad o'r ardal gadwraeth; bydd ailddatblygu'r adeilad yn gwella ei olwg a'i fywiogrwydd.	Colli adeilad â gwerth cymunedol sylweddol.	Sicrhau bod cynllun adeiladau a godir yn lle'r sinema yn parchu llinellau adeiladau a ffiniau lleiniau; gwaith cofnodi cyn dymchwel y sinema.
Creu llwybr mynediad newydd ar dir ffermio.	Er mwyn diwallu anghenion y ffermwr sy'n defnyddio'r cae i bori da byw.	Mae'r tir yn rhan o barcdir parc a gardd hanesyddol sy'n gofrestredig.	Y potensial i ailagor llwybr hanesyddol drwy'r parcdir a gwella'r cymeriad hanesyddol.	Llwybr sydd wedi'i leoli'n wael ac sy'n rhannu'r parcdir hanesyddol ac yn arwain at golli cymeriad hanesyddol.	Ailagor llwybr hanesyddol drwy'r parcdir er mwyn lleihau'r effaith andwyol a gwella'r cymeriad hanesyddol.
Creu cynefin rhynglanwol newydd drwy ailalinio neu ddileu amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol mewn ffordd reoledig.	Cynaliadwyedd amddiffynfeydd rhag llifogydd neu'r cyfiawnhad economaidd drostynt o ystyried bod lefel y môr yn codi. Cydymffurfiaeth â Chynllun Rheoli'r Morlin ar gyfer yr ardal arfordirol. Creu cynefin digolledu ar gyfer cyfres Natura 2000 neu fesur gwrthbwysio ar gyfer y prosiect arfordirol, megis morlyn llanwol.	Efallai fod yr ardal rynglanwol newydd yn cynnwys asedau hanesyddol hysbys ac, o bosibl, asedau hanesyddol anhysbys a arferai fod ar dir sych.	Cyfle i gofnodi asedau hanesyddol ac ymchwilio iddynt fel un o ofynion y gwaith o gynllunio (ailalinio mewn ffordd reoledig) mesurau lliniaru. Efallai na fydd hyn yn briodol ar gyfer dileu amddiffynfeydd rhag llifogydd.	Colli mynediad i ased hanesyddol neu ddinistrio ased hanesyddol.	Bydd y dyletswyddau ar gyfer gwaith lliniaru yn dibynnu ar b'un a yw llifogydd llanwol yn cael eu hachosi drwy ddileu amddiffynfeydd rhag llifogydd neu eu hailalinio'n bwrpasol mewn ffordd reoledig. Datblygu strategaethau.
Adeiladu garej frics newydd mewn gardd.	Er mwyn galluogi'r deiliad tŷ i roi ei gar yn ddiogel mewn garej.	Mae lleoliad arfaethedig y garej ar safle heneb gofrestredig.	Dim	Dinistrio olion archaeolegol o bwys cenedlaethol.	Lleoli'r garej y tu allan i ardal yr heneb gofrestredig os yw'n bosibl. Ystyried adeiladwaith ysgafn, megis pren neu borth car. Efallai y bydd angen gwneud gwaith cloddio archaeolegol neu gynnal briff gwyllo o hyd.

Rhagor o Wybodaeth

Polisi a Chanllawiau Cynllunio

[Polisi Cynllunio Cymru](#)

Polisi Cynllunio Cymru: Pennod 6—Yr Amgylchedd Hanesyddol

[Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio](#)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Canllawiau Arferion Gorau

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn

Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

[Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu](#), (2^{il}) argraffiad diwygiedig gan gynnwys diwygiadau i'r broses asesu (ASIDOHL2), Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi
Rheoli Newid i Henebion Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol Lleol o Ddiddordeb Arbennig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

[Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol](#), Cadw, Welsh Historic Monuments, 2002

[Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Ymgeisio](#), Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Deall Rhestru yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Deall Cofrestru yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, i'w gyhoeddi

Canllawiau Cadwraeth

[BS7913 Guide to the Conservation of Historic Buildings](#)

Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol www.ihbc.org.uk/

[Cynnal a Chadw!](#)

Gwybodaeth Hanesyddol

[Archifau Cymru](#) — Catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru.

[Archwilio](#) — Cofnodion amgylchedd hanesyddol ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

[Coflein](#) — Y mynegai ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

[Cof Cymru](#) — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchoddedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig.²⁶

Porth Cymru Hanesyddol www.historicwales.gov.uk

Cysylltiadau

Llywodraeth Cymru

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 336000

cadw@cymru.gsi.gov.uk

llyw.cymru/cadw

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 3BU

Ffôn: 01970 621200

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

www.rcahmw.gov.uk

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk

www.coflein.gov.uk

Gallwch drefnu i ymweld â'r ystafell chwilio gyhoeddus yn Aberystwyth lle bydd y staff yn egluro'r adnoddau sydd ar gael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymwilio i gymeriad hanesyddol, yn cynnwys mapiau hanesyddol, darluniau, ffotograffau a chofnodion arolygon.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

41 Stryd Lydan, Y Trallwng SY21 7RR

Ffôn: 01938 553670

trust@cpat.org.uk

www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Corner House, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE

Ffôn: 01558 823121

info@dyfedarchaeology.org.uk

www.dyfedarchaeology.org.uk

²⁶ Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2017.

DRAFFT Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Comisiwn Dylunio Cymru

4^{yd} Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL
Ffôn: 029 2045 1964
connect@dcfw.org
<http://dcfw.org>